# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cofnodion (SJR(2)-16-06)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 23 Tachwedd 2006
### Amser y cyfarfod: 1.30pm – 4.00pm
### Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | Sir Drefaldwyn |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gwyr |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Trish Law | Blaenau Gwent |
| Sandy Mewies | Delyn |
| Catherine Thomas | Llanelli |
| Leanne Wood | Canol De Cymru |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Emyr Roberts | Cyfarwyddwr – yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio |
| Linda Whittaker | Cyfarwyddwr Tai |
| Jo Jordan | Cyfarwyddwr yr Uned Diogelwch Cymunedol |
| Anne Stephenson | Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |
| Karyn Pittick | Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |
| Paul Webb | Yr Is-adran Dai |
| Chris Hobday | Yr Is-adran Dai |

| | |
|---|---|
| Mike Harmer | Yr Is-adran Dai |

## Eraill yn Bresennol

| Enw | Yn cynrychioli (os ydyw'n berthnasol) | Eitem(au) agenda |
|---|---|---|
| Simon Smith | Prif Swyddog T? Gwasanaethau T?ac Achub Gogledd Cymru | 3 |
| Simon Harris | Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol | 5 |
| Michael Jones | Prifysgol Caergrawnt | 9 |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Virginia Hawkins | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Gan nad oedd Janice Gregory ar gael penododd y Pwyllgor Mick Bates i fod yn Gadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 8.20.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor, Aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a'r cyhoedd.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd bod Aelodau'r Pwyllgor yn anfon eu dymuniadau gorau am adferiad buan at Janice Gregory.

1.4 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Janice Gregory, Laura Anne Jones a Huw Lewis. Roedd Catherine Thomas yn dirprwyo ar ran Huw Lewis. Datganodd Leanne Wood fuddiant fel Aelod o Gymorth i Fenywod Cwm Cynon.

1.5 Mae cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael.

## Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

## Papur: SJR(2)-15-06 (min)

Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2006.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog**

**Papur: SJR(2)-16-06(p.1) Atodiadau A, 1, 2.3, 4**

**Camau i'w Cymryd**

Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor ynghylch y wybodaeth a roddodd ar lafar yn y cyfarfod ynghylch y materion a godwyd yn ystod ei chyfarfod diweddar gyda phedwar Prif Gwnstabl Cymru

Cytunodd y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor wedi iddi dderbyn ei hymateb gan Tony McNulty AS ynghylch defnyddio ystafell cymryd cyffuriau

Cytunodd y Gweinidog i ddosbarthu'r adroddiad llafar a roddwyd ar Dai Arddangos Safon Ansawdd Tai Cymru

Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Cadeirydd gyda'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghori ar Gronfa Datblygu Grwpiau Dan Anfantais

Cytunodd y Gweinidog i ofyn i'w swyddogion edrych ar ffyrdd mwy effeithiol o godi ymwybyddiaeth o'r grantiau sydd ar gael o dan y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref a byddai'n cysylltu ?ofal a Thrwsio i drafod y mater

Cytunodd y Gweinidog i ddosbarthu'r daflen ffeithiau yr oedd ei swyddogion yn ei pharatoi ar fenthyca darbodus pan fyddai wedi ei chwblhau

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn byr ar yr adolygiad o'r fformiwla i ariannu'r heddlu

Cytunodd y Gweinidog i ofyn i Swyddog Cydgysylltu ?146;r Heddlu y Cynulliad ganfod a oedd patrwm o gynnydd yn y newid o ysmygu cannabis i heroin yn ymddangos o ganlyniad i'w hymgyrch yn erbyn cannabis yn ardal Abertawe, cyn y cyfarfod nesaf gyda Phenaethiaid yr heddlu, ac adrodd yn ?'r Pwyllgor

Cytunodd y Gweinidog y byddai ei swyddogion yn cysylltu ?erched mewn Angen yng Nghasnewydd ac yn ystyried y mater o dy diogel yn arbennig ar gyfer dioddefwyr masnachu

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn esboniadol ysgrifenedig yn cynnwys y pwyntiau a godwyd ar drosglwyddo stoc, yn arbennig y diffiniad o denantiaethau diogel a sicr

Cytunodd y Gweinidog i ddosbarthu manylion am brosiectau llwyddiannus o dan nawdd y Swyddfa Gartref i gefnogi prosiectau trais yn y cartref, pan gant eu cyhoeddi

Cytunodd y Gweinidog i gael gafael ar y gwaith ymchwil a wnaed gan y Rhwydwaith Pobl Hyn a Heneiddio ynghylch y marwolaethau ychwanegol yn ystod y gaeaf, i’w rannu ?146;r Pwyllgor

Cytunodd y Gweinidog y byddai ei swyddogion yn ymweld ag Awdurdod Lleol Blaenau Gwent ac awdurdodau lleol eraill sydd ?efel uchel o dai cymdeithasol gwag a byddai’n adrodd yn ?r eu canfyddiadau yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf

**Eitem 4: Ystyried y Gyllideb Ddrafft**

**Papur: SJR(2)-16-06(p.2) Atodiad 1, 2**

Cafwyd trafodaeth ar y gyllideb ddrafft.

**Camau i’w cymryd**

Cytunodd y Gweinidog i adrodd yn ?r ffigyrau tlodi tanwydd gan ystyried ffigyrau amcangyfrifedig Llywodraeth Cynulliad Cymru a’r rhai hynny a gynhyrchwyd o’r adroddiad gan y Ganolfan Technoleg Amgen

Cytunodd y Gweinidog i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor yn dilyn ei llythyr at Gadeirydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch materion adnoddau yn ymwneud ?hai

18. Cytunodd y Gweinidog i ystyried pa waith ychwanegol a ellid ei wneud o ran lleoli safleoedd sipsiwn/teithwyr ger adnoddau lleol

Y Cadeirydd (Gweithredol) i ysgrifennu at y Gweinidog gyda sylwadau’r Pwyllgor ar y Gyllideb Ddrafft

**Eitem 5: Strategaeth Mentrau Cymdeithasol**

**Papur: SJR(2)-16-06(p.3) Atodiad**

Nodwyd y sefyllfa ddiweddaraf o ran y strategaeth.

**Camau i’w cymryd**

Cytunodd y Gweinidog i roi gwybod i’r Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer gweithredu’r Strategaeth Mentrau Cymdeithasol

Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Cadeirydd gyda manylion ynghylch r? sefydliadau preifat a sefydliadau ar y cyd yn y Strategaeth Mentrau Cymdeithasol

Cytunodd y Gweinidog i rannu canfyddiadau‘r Adolygiad o Ymddiriedolaeth Adfywio’r Meysydd Glo gyda’r Pwyllgor

**Eitem 6: Is-ddeddfwriaeth**

**Papur: SJR(2)-16-06(p.4) Atodiad 1, 2**

Nodwyd y papur

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Gweinidog i edrych a oedd y Gorchymyn Cartrefi Symudol yn ymwneud ? chartrefi symudol fel prif gartrefi neu fel cartrefi gwyliau, ac adrodd yn ?p>

**Eitem 7: Cynllun Gweithredu Cymru ar Dai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig**

**Papur: SJR(2)-16-06(p.5) Atodiad**

Nodwyd y papur

**Eitem 8: Tai Cymdeithasol**

**Papur: SJR(2)-14-06(p.6) Atodiad 1. 2**

Nodwyd y papur

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Gweinidog i roi gwybod i'r Pwyllgor am leoliad y tri phrosiect treialu extraCare

**Eitem 9: Perchentyaeth Cost Isel**

**Papur: SJR(2)-16-06(p.7) Atodiad**

Nodwyd y papur. Clywodd y Pwyllgor hefyd gyflwyniad gan Michael Jones o Ganolfan Caergrawnt ar gyfer Ymchwil Tai a Chynllunio

**Eitem 10: Blaenraglen Waith Gwanwyn 2007**

**Papur: SJR(2)-16-06(p.8) Atodiad**

Nodwyd y papur ac fe'i cytunwyd